Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro awdurdod lleol sy'n achosi pryder sylweddol

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

**Canolfan Ddinesig**
**Pont-y-pŵl**
**Torfaen**
**NP4 6YB**

**Dyddiad yr ymweliad: Hydref 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Deilliant yr ymweliad

Ers yr arolygiad craidd, mae'r Prif Weithredwr wedi gyrru ei gynlluniau clir ymlaen i wella gwerthuso, atebolrwydd a rheoli perfformiad ar draws yr awdurdod lleol. Mae ef a'r Cyfarwyddwr Addysg wedi sicrhau'n llwyddiannus fod staff ar bob lefel yn y gwasanaeth addysg yn deall eu rôl mewn sicrhau gwelliannau ar gyfer plant a phobl ifanc ar draws yr awdurdod lleol. Mae'r Cyfarwyddwr Addysg wedi rhannu gweledigaeth glir ar gyfer gwelliant ar draws y gwasanaeth addysg ac wedi sicrhau bod pob un o'r staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn cyfrannu'n ystyrlon at welliannau parhaus yr awdurdod lleol.

Bernir bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi gwneud cynnydd digonol o ran yr argymhellion ar ôl yr arolygiad craidd diweddaraf o'u gwasanaethau addysg llywodraeth leol. O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yn tynnu'r awdurdod lleol oddi ar y rhestr o awdurdodau lleol sy'n achosi pryder sylweddol.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Gwella deilliannau i ddysgwyr, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd

Mae'r Cyfarwyddwr Addysg wedi sicrhau ffocws cryf ar wella deilliannau ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc yn Nhorfaen. Mae wedi sicrhau bod swyddogion ar draws y gwasanaeth addysg yn deall eu rôl o ran gyrru'r gwelliannau hyn.

Ers yr arolygiad craidd, rydym wedi arolygu 11 ysgol gynradd, wyth lleoliad nas cynhelir, dwy ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig. At ei gilydd, mae deilliannau arolygu wedi bod yn gadarnhaol. O'r ysgolion a'r lleoliadau hyn, gosodwyd un ysgol gynradd ac un lleoliad nas cynhelir yn y categori adolygu gan Estyn. Gofynnwyd i ddau leoliad nas cynhelir a dwy ysgol gynradd ddarparu astudiaethau achos arfer effeithiol. Adeg yr arolygiad craidd, roedd dwy o ysgolion uwchradd yr awdurdod lleol yn y categori mesurau arbennig. Gwnaeth un o'r ysgolion hyn welliant digonol i gael ei thynnu o weithgarwch dilynol ym mis Chwefror 2023; mae'r ysgol arall yn parhau i fod yn y categori mesurau arbennig ar ôl cael ei gosod yn y categori monitro gan Estyn yn 2015.

Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n effeithiol gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) rhanbarthol. Mae hyn wedi helpu gwella'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu am berfformiad ysgolion. O ganlyniad, mae'r GCA bellach yn darparu dadansoddiad manwl o ddysgu a chynnydd disgyblion mewn ysgolion yn Nhorfaen, yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae hyn wedi helpu swyddogion i nodi cryfderau pwysig a meysydd i'w gwella ar draws ysgolion yr awdurdod lleol.

Mae gan yr awdurdod lleol ffocws cryf ar wella presenoldeb disgyblion. Mae ganddynt strategaeth glir sy’n cael ei deall yn dda gan ei swyddogion a’i ysgolion. Mae swyddogion yn darparu cymorth a her fuddiol i ysgolion i wella presenoldeb disgyblion. Mae hyn yn cynnwys darparu ystod eang o ddata a gofyn cwestiynau craff i arweinwyr ysgolion. Mae’r awdurdod lleol hefyd wedi gwella’r ffordd y mae Partneriaid Gwella Ysgolion (PGY) yn cefnogi a herio ysgolion am yr agwedd hon ar eu gwaith. Mae hyn yn cyfrannu’n dda at welliannau ym mhresenoldeb disgyblion dros y deuddeg mis diwethaf. Er gwaethaf y gwelliannau hyn, mae presenoldeb yn Nhorfaen yn is nag ydoedd cyn y pandemig, fel y mae yn genedlaethol.

Er bod cyfraddau gwaharddiadau’r awdurdod lleol wedi gostwng o gymharu â’r un cyfnod y llynedd, mae’r awdurdod lleol yn cydnabod bod cyfraddau gwaharddiadau yn parhau i fod yn rhy uchel, yn enwedig mewn ychydig o ysgolion uwchradd.

Ers yr arolygiad craidd, mae’r awdurdod lleol wedi cynnal ei waith effeithiol o ran nodi a chefnogi’r bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o fod yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH). Mae hyn wedi cynnwys creu gwasanaeth arlwyo’r awdurdod lleol, sef ‘The Inspire Cafe’, sy’n darparu cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc fregus. O ganlyniad i’r gwaith hwn, ychydig iawn o ddisgyblion sy’n dod yn bobl NACH yn yr awdurdod lleol.

**Cryfhau rheoli perfformiad**

Ers yr arolygiad craidd, mae prosesau rheoli perfformiad wedi gwella’n nodedig. Ategir hyn gan ddisgwyliadau uchel arweinwyr i bob un o’r staff fod yn atebol am sicrhau gwelliannau yn eu meysydd cyfrifoldeb. Ceir proses a ddeellir yn dda ar gyfer rheoli perfformiad, lle gosodir amcanion clir ar gyfer staff, yn unol â chynlluniau’r sir, y gwasanaeth addysg a’r timau. Caiff staff gyfleoedd rheolaidd i adolygu cynnydd yn erbyn eu hamcanion a nodi anghenion dysgu proffesiynol. O ganlyniad, caiff timau ac unigolion eu dwyn i gyfrif yn fwy effeithiol am ansawdd eu gwaith erbyn hyn nag ar adeg yr arolygiad craidd, ac mae uwch arweinwyr yn mynd i’r afael â thanberfformio yn drylwyr. Mae penodi swyddog gwerthuso a gwella wedi galluogi’r awdurdod lleol i sicrhau prosesau cryf i fonitro perfformiad unigolion a thimau yn y gwasanaeth addysg yn agos.

Mae staff yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol sydd wedi’u cysylltu’n agos â’u hamcanion rheoli perfformiad a blaenoriaethau’r gwasanaeth addysg. Yn gyffredinol, caiff swyddogion gyfleoedd buddiol i nodi eu hanghenion gwella’u hunain. Mae hyn wedi eu cynorthwyo’n dda i wella’u gallu i werthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn gywir. Yn benodol, mae’r tîm arweinyddiaeth estynedig a’r rhaglen arweinyddiaeth gysylltiol, lle mae swyddogion ar bob lefel yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn grwpiau arweinyddiaeth, wedi cynorthwyo llawer o staff i ehangu eu dealltwriaeth o waith y gwasanaeth addysg a meddwl a chynllunio’n fwy strategol. Mae’r grwpiau hyn wedi helpu dosbarthu arweinyddiaeth ac wedi annog staff i herio a

chefnogi ei gilydd yn adeiladol. Mae hyn wedi galluogi'r gwasanaeth addysg i sicrhau gwelliannau pwysig a chynyddu ei gapasiti arweinyddiaeth.

Mae prosesau rheolaeth llinell yn glir a buddiol. Mae swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd â'u rheolwyr llinell i drafod agweddau pwysig ar eu gwaith. Darperir cymorth a her fuddiol i staff yn ystod y cyfarfodydd hyn ac fe gânt eu dwyn i gyfrif yn dda am gyflwyno'u cynlluniau gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw effaith y camau gweithredu a gytunwyd mewn cyfarfodydd rheolaeth llinell bob amser yn cael eu hystyried yn ddigon manwl.

**Cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant a'r cysylltiad rhyngddynt**

Caiff gwaith y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Strategol ar gyfer Plant a Theuluoedd a'r Cyfarwyddwr Addysg ei yrru gan synnwyr cryf o ddiben moesol. Maent yn gwneud yn weladwy eu nod uchelgeisiol i leihau anghydraddoldeb a gwella'r cyfleoedd bywyd ar gyfer yr holl bobl ifanc yn Nhorfaen. Mae diwylliant gwirioneddol o welliant parhaus ar draws yr awdurdod lleol sy'n ategu ac yn gyrru gwaith staff yn y gwasanaeth addysg. O ganlyniad, mae staff yn deall eu rolau'n dda ac yn eu cyflawni'n ddiwyd.

Mae arweinwyr wedi sefydlu prosesau gwerthuso a gwella effeithiol. Mae hyn yn galluogi'r Arweinydd a'r Aelod Gweithredol ar gyfer Plant a Theuluoedd i ddeall cryfderau'r gwasanaeth addysg a'i feysydd i'w gwella yn dda. Mae'r aelodau hyn yn ymgysylltu'n rheolaidd â swyddogion ac mae ganddynt drosolwg clir o ysgolion a lleoliadau ar draws yr awdurdod. O ganlyniad, maent yn herio a chefnogi swyddogion yn fwy effeithiol nag ar adeg yr arolygiad craidd. Mae prosesau craffu wedi gwella'n neilltuol ers yr arolygiad craidd, hefyd. Erbyn hyn, rhoddir adroddiadau cywir a buddiol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Addysg. Mae aelodau'r pwyllgor yn gofyn cwestiynau perthnasol ac yn rhoi her reolaidd trwy argymhellion clir, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cael eu derbyn gan y Cabinet.

Mae'r Cyfarwyddwr Addysg a'i uwch dîm wedi sicrhau ymagweddau buddiol at werthuso a gwelliant cydweithredol sy'n galluogi staff i herio a chefnogi gwerthusiadau ei gilydd yn adeiladol. Caiff y prosesau hyn eu deall yn dda a'u gweithredu'n gyson gan staff ar bob lefel. Mae swyddogion yn gwerthuso gwaith y gwasanaeth yn drylwyr, yn rheolaidd ac yn gywir. O ganlyniad, mae uwch arweinwyr a swyddogion yn meddu ar ddealltwriaeth gref o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella ar draws meysydd gwasanaeth mewn addysg. Mae hyn yn galluogi'r awdurdod i gynllunio'n effeithiol a sicrhau gwelliannau mewn modd amserol, er enghraifft y gwelliant nodedig yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o bob agwedd ar waith lleoliadau, ysgolion a'r UCD.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r awdurdod lleol wedi gwella llais pobl ifanc mewn llywio'u cyfeiriad strategol. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi sefydlu 'Rebel Youth Torfaen' sydd wedi galluogi disgyblion o ysgolion uwchradd i gysgodi uwch rolau yn

yr awdurdod lleol. Mae'r disgyblion hyn wedi cynorthwyo swyddogion i feddwl yn greadigol am sut i fynd i'r afael â heriau sy'n wynebu pobl ifanc ar draws Torfaen. Mae uwch arweinwyr wedi bwrw ymlaen ag argymhellion gan y grŵp Rebel Youth ac yn cynllunio'n ystyrlon i fynd i'r afael â nhw.

Mae cynllunio strategol yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol ac yn cynnwys ffocws cryf ar gyflawni amcanion Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r cynllun gwella addysg, a'r cynlluniau tîm, yn cynnwys dolenni clir at y cynllun sirol. Mae'r cynllun gwella addysg yn cynnwys nodweddion buddiol fel meini prawf llwyddiant â ffocws a graddfeydd amser perthnasol sy'n galluogi arweinwyr i gadw eu cynlluniau ar y llwybr cywir. Er enghraifft, mae'r Pennaeth Adnoddau a Chynllunio, gyda chefnogaeth fedrus gan y Pennaeth Mynediad ac Ymgysylltu, yn monitro cynnydd rhaglenni cyfalaf a chynnal yn agos.

Ceir cylch clir o fonitro, gwerthuso ac adolygu sy'n cynorthwyo swyddogion yn dda i ganolbwyntio'n briodol ar yr effaith y mae eu cynllunio gwelliant yn ei chael. Fodd bynnag, ar lefel tîm, nid yw'r dull cynllunio, sy'n dilyn y system gorfforaethol, yn galluogi swyddogion i nodi'r meini prawf llwyddiant yn fanwl gywir. O ganlyniad, nid yw canlyniad ac effaith y camau a gymerwyd bob amser yn cael eu monitro na'u hadrodd yn effeithiol. Ar adegau, mae gwerthusiadau tîm yn canolbwyntio'n ormodol ar y gweithgarwch sydd wedi digwydd, ac nid ydynt bob amser yn ddigon manwl ynghylch effaith y camau hynny.

At ei gilydd, mae'r newidiadau a wnaed gan arweinwyr i brosesau gwerthuso a chynllunio gwelliant wedi cael effaith gadarnhaol ar lawer o agweddau ar waith y gwasanaeth addysg. Mae'r agweddau hyn yn cynnwys gwella presenoldeb, sicrhau bod amserlenni wedi'u haddasu yn cael eu defnyddio a'u hadolygu'n briodol mewn ysgolion, a chryfhau cynllunio ariannol yn y gwasanaeth addysg.

**Gwella arweinyddiaeth strategol dysgu ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY)**

Ers ei benodi, mae'r Cyfarwyddwr Addysg wedi darparu arweinyddiaeth gref, strategol a thosturiol. Mae wedi datblygu gweledigaeth glir ac a ddeellir yn dda ar gyfer gwella addysg a gwasanaethau yn Nhorfaen ac wedi rhannu hyn yn effeithiol. Ategir y weledigaeth hon gan ddisgwyliadau ac atebolrwydd uchel. Ceir prosesau clir erbyn hyn ar gyfer gwella ysgolion, a ategir gan her a chymorth effeithiol i ysgolion a lleoliadau.

Bu'r awdurdod lleol yn gweithio'n llwyddiannus i ddiffinio'n glir y rolau sydd gan yr awdurdod lleol, y GCA a'r ysgolion i sicrhau'r deilliannau gorau i blant a phobl ifanc yn Nhorfaen. O ganlyniad, mae arweinwyr ysgolion yn glir erbyn hyn am y rôl y mae gan bob un ohonynt mewn cefnogi eu gwelliannau parhaus. Yn ychwanegol, mae arweinwyr a swyddogion yn y gwasanaeth addysg yn meddu ar wybodaeth gref a manwl am bob agwedd ar waith eu hysgolion.

Mae'r bartneriaeth gydweithredol rhwng yr awdurdod lleol a'r GCA wedi cael ei chryfhau'n dda ers yr arolygiad craidd, fel y mae perthnasoedd gydag ysgolion, lleoliadau a'r UCD. Caiff y perthnasoedd hyn eu meithrin ar lefelau uchel o barch ar y ddwy ochr ac uchelgais ar y cyd i sicrhau'r addysg o'r ansawdd gorau ar gyfer plant a phobl ifanc yn y fwrdeistref.

Mae'r Cyfarwyddwr Addysg a'r Pennaeth Dysgu a Chyflawni wedi sefydlu perthnasoedd gweithio cryf gydag uwch arweinwyr yn y GCA ac mae hyn wedi helpu i sefydlu diwylliant lle caiff her a chymorth eu croesawu a'u hannog. Mae'r awdurdod lleol yn cyfleu eu disgwyliadau uchel gyda'r GCA yn rheolaidd ac yn darparu cyfleoedd buddiol i'r GCA nodi cryfderau a chodi unrhyw bryderon am gymorth i ysgolion.

Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n rhagweithiol ochr yn ochr ag arweinwyr yn y GCA i gryfhau ymagweddau at wella ysgolion. Mae hyn wedi cynnwys darparu arweiniad buddiol i arweinwyr ysgolion a sicrhau bod gan Bartneriaid Gwella Ysgolion (PGY) raglen glir ar gyfer eu hymgysylltiad ag ysgolion. O ganlyniad, ar y cyfan, mae CGYau yn cynnig her a chymorth buddiol i'w hysgolion. Yn ychwanegol, mae'r cynnig dysgu proffesiynol wedi'i deilwra'n fwy i anghenion ysgolion Torfaen erbyn hyn.

Mae prosesau a systemau buddiol erbyn hyn ar gyfer rhannu gwybodaeth am ysgolion yn yr awdurdod lleol, a rhwng yr awdurdod lleol a'r GCA. Mae hyn yn cynnwys 'map gwres' yr awdurdod lleol ac adroddiadau gwerthusol cyffredinol fuddiol a ddarperir gan y GCA. Yn ychwanegol, mae'r Prif Bartner Gwella Ysgolion yn gweithio'n agos gydag uwch arweinwyr yn yr awdurdod lleol i ddarparu diweddariadau rheolaidd ar y cymorth a gaiff ysgolion. O ganlyniad, bu gwelliant nodedig yn ystod ac ansawdd y wybodaeth yr oedd y GCA yn ei darparu ar gyfer ysgolion, ond mewn ychydig o achosion, mae trosolygon cefnogi ysgolion yn rhy gadarnhaol am y cynnydd y mae ysgolion wedi'i wneud.

Er gwaethaf cyfnod cythryblus ers yr arolygiad craidd, mae'r tîm ADY wedi parhau i ganolbwyntio ar gyflwyno gwasanaethau statudol a chraidd yn effeithiol. O ganlyniad, mae timau wedi parhau i ddarparu cymorth gwerthfawr ar gyfer plant a phobl ifanc a'u teuluoedd ar gyfer agweddau penodol ar ADY.

Mae gan yr awdurdod lleol weledigaeth glir i gynorthwyo'i ddysgwyr ag ADY ac wedi cryfhau'r arweinyddiaeth ar yr agwedd hon yn dda. Mae arweinwyr wedi bod yn rhagweithiol yn nodi ac yn mynd i'r afael â thanberfformio i wella cyflwyno gwasanaethau, yn cynnwys cynorthwyo a herio staff i wella ansawdd eu gwaith.

Mae arweinwyr ar draws y gwasanaeth yn deall eu meysydd cyfrifoldeb yn dda ac wedi ymrwymo'n fawr i wella'r ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer disgyblion ag ADY. Maent wedi cydnabod bod angen adolygu'r strategaeth ar gyfer cynorthwyo

plant a phobl ifanc ag ADY ac yn sicrhau bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn allweddol i sicrhau'r deilliannau gorau ar gyfer pob un o'r disgyblion.

Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu proses gadarn ar gyfer monitro'r defnydd o amserlenni wedi'u haddasu. Mae hyn yn eu helpu i ddeall yn well pam a ble mae'r rhain yn digwydd, yn ogystal â darparu cymorth ar gyfer ysgolion i leihau nifer y disgyblion sy'n dilyn amserlenni llai ar hyn o bryd. Hefyd, mae'r newidiadau diweddar i'r polisi symudiadau wedi'u rheoli wedi cael effaith gadarnhaol ar gefnogi ysgolion i leihau gwaharddiadau, er bod y rhain yn parhau i fod yn rhy uchel.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn y gwasanaeth ADY yn gryfder nodedig. Mae staff yn gweithio gydag ystod o wasanaethau mewnol a grwpiau rhanddeiliaid yn dda i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY. At ei gilydd, mae uwch arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan swyddogion ADY a chynhwysiant awdurdodau lleol. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r capasiti ar draws y timau yn cyfyngu ar gwmpas y cymorth a'r arweiniad y gall yr awdurdod lleol eu darparu ar gyfer pob un o'r lleoliadau, yr ysgolion a'r UCD.

Mae'r awdurdod lleol yn gwneud defnydd effeithiol o ystod o ddata a gwybodaeth fel rhan o'i werthusiad o wasanaethau. O ganlyniad, mae'n dechrau datblygu corff o dystiolaeth ynghylch arfer effeithiol ar gyfer cynorthwyo disgyblion ag ADY ac yn ei defnyddio'n dda i gefnogi ysgolion. Enghraifft dda yw'r adolygiad diweddar o ddosbarthiadau arbenigol awdurdodau lleol, sydd wedi darparu sail dystiolaeth fuddiol ar gyfer swyddogion. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella a datblygu'r defnydd o'r ddarpariaeth hon ar draws yr awdurdod.

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**